Newyddlen Pont Llannerch

Pwrpas y Newyddlen

Cyhoeddir y newyddlen hon gan Gyngor Sir Ddinbych. Ei nod yw sicrhau bod trigolion lleol, busnesau a phartïon eraill â diddordeb yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda'n prosiect i adnewyddu Pont Llannerch. Ein bwriad yw cyhoeddi newyddlen bob chwarter fel eich bod yn gwybod beth rydym wedi'i wneud, beth rydym yn bwriadu ei wneud nesaf, a chyfleoedd i chi gymryd rhan yn natblygiad y prosiect hwn.

Yn y rhifyn hwn, byddwn yn rhoi gwybod i chi beth sydd wedi digwydd ers y newyddlen ddiwethaf y bu i ni ei hanfon ym mis Awst 2022, yn ogystal â'r hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni cyn ein newyddlen nesaf yn ystod gwanwyn 2023.

Y wybodaeth ddiweddaraf: beth sydd wedi bod yn digwydd?

Ers i ni gyhoeddi ein newyddlen ddiwethaf:

Mae gwaith modelu llifogydd wedi dechrau

Mae safle Pont Llannerch ar orlifdir afon Clwyd, sydd wedi mynd trwy newidiadau sylweddol ers i Bont Llannerch wreiddiol gael ei hadeiladu ar ddiwedd y 1700au neu ddechrau'r 1800au. Mae'r afon yn llifo mewn ffordd hollol wahanol ac mae'r patrymau llifogydd yn wahanol iawn i sut y byddent wedi bod dau gan mlynedd yn ôl. Mae'n bwysig deall effaith unrhyw waith ar y bont a'r ffyrdd sy'n dod at y bont ar y gorlifdir.

Mae'r risgiau o beidio â gwneud hynny'n cynnwys:

- Potensial i gynyddu'r perygl llifogydd i fyny'r afon o safle'r bont
- Potensial i gynyddu'r perygl llifogydd i lawr yr afon o safle'r bont
- Potensial i unrhyw bont newydd gael ei golchi i ffwrdd, os nad yw wedi'i dylunio'n briodol

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i ddeall o'u data am lifogydd effaith bosibl amrywiaeth o wahanol ddyluniadau ar gyfer pont newydd a ffordd sy'n dod at y bont. Yn gryno bydd y rhain yn cynnwys:

- **Senarios gwahanol ar gyfer newidiadau i lif yr afon:** Gwyddom eisoes fod y ffordd y mae afon Clwyd yn llifo i lawr y gorlifdir wedi newid yn sylweddol ers adeiladu Pont Llannerch wreiddiol, a oedd yn rhan o'r rheswm y cafodd ei golchi i ffwrdd. Mae angen i ni ddeall pa effaith y gallai amlder a difrifoldeb digwyddiadau llifogydd yn y dyfodol ei chael ar lif cyffredinol afon Clwyd, yn ogystal â'r gorlifdir o'i hamgylch.
- **Pa mor dda y bydd y bont a'r ffyrdd sy'n dod at y bont yn eistedd o fewn yr afon a'r gorlifdir o'i hamgylch**: bydd newidiadau i lif yr afon ac amlder digwyddiadau llifogydd yn effeithio ar ba mor ddiogel yw safle'r bont. Ar hyn o bryd rydym yn gobeithio y byddwn yn gallu cadw strwythur presennol y bont o fewn beth bynnag yw ein cynllun terfynol newydd - fodd bynnag mae angen i ni fod yn sicr ei fod yn ddiogel ac yn briodol gwneud hynny.

Unwaith y bydd y gwaith modelu wedi'i gwblhau byddwn yn gallu cwblhau ein dyluniadau arfaethedig ar gyfer y bont, ac ar yr adeg honno byddwn yn edrych ymlaen at fynd â'r rhain i ymgynghoriad â'r gymuned leol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Cwblhau'r opsiynau dylunio a ffefrir ar gyfer y bont newydd

Yn seiliedig ar ein sgyrsiau hyd yma gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, y corff treftadaeth Cadw a Llywodraeth Cymru, rydym ar hyn o bryd yn gweithio tuag at ddewis o ddau ddyluniad a ffefrir ar gyfer Pont Llannerch newydd.

Er mwyn cwblhau'r dyluniadau hyn, yn ogystal â'r modelu llifogydd sydd eisoes ar y gweill, byddwn yn penodi contractwyr i gynnal arolygon o safle Pont Llannerch dros y 2-3 mis nesaf.

Byddwn yn gweithio ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i gwblhau'r arolygon hyn. Mae gan Dŵr Cymru safle echdynnu heb fod ymhell o safle Pont Llannerch, ac rydym yn gobeithio manteisio ar y data sydd ganddynt eisoes mewn perthynas ag Afon Clwyd, yn ogystal â sicrhau na fydd unrhyw waith y bwriadwn ei wneud yn y lleoliad hwn yn effeithio ar eu gallu i barhau i dynnu dŵr o afon Clwyd.

Casglu adborth gan y gymuned ar ein dyluniadau terfynol

Unwaith y byddwn yn hyderus bod y dyluniadau o bontydd rydym wedi'u cynnig yn ddiogel, yn briodol, ac yn gallu gwrthsefyll llifogydd, byddwn yn mynd â'r dyluniadau hyn yn ôl i'r gymuned am adborth cyn cyflwyno cais cynllunio i adnewyddu'r bont.

Ein bwriad yw defnyddio ein newyddlen yn ystod y gwanwyn i roi gwybod i chi sut y gallwch weld y dyluniadau hyn a rhoi adborth arnynt.

Dyddiad ein newyddlen nesaf

Cyhoeddir y newyddlen nesaf yn ystod gwanwyn 2023 (tua diwedd mis Mawrth/dechrau mis Ebrill).

A allai'r newyddlen hon fod wedi bod yn e-bost?

Os ydych wedi casglu copi papur o'r newyddlen hon ac y byddai'n well gennych dderbyn copïau o newyddlen Pont Llannerch yn electronig yn y dyfodol, anfonwch e-bost at: ymgysylltu.cyhoeddus@sirddinbych.gov.uk

Sylwadau, ymholiadau a phryderon:

Ysgrifennwch at: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ

E-bost: ymgysylltu.cyhoeddus@sirddinbych.gov.uk